

Derbyn a Blwyddyn 1 Mrs Nia Vaughan Jones

Staff

Mrs Nia Vaughan Jones
Mrs Ann Griffith
Miss Linda Owen
Mrs Glynis Roberts
Mrs Menna Jones

Darllen/Cofnod Darllen

Bydd eich plentyn yn cael dewis llyfr i fynd adref, a byddwn yn newid y llyfr pan fydd eich plentyn yn dychwelyd y bag darllen. Gofynnwn i chi ysgrifennu sylwadau ar ôl darllen gyda'ch plentyn. Bydd plant y dosbarth Derbyn yn cael llyfr sŵn i fynd adre bob Dydd Gwener.

Addysg Gorfforol/Nofio

Mae ein gwersi Addysg Gorfforol ddwy waith yr wythnos.

Dydd Mercher - tu allan, bydd eich plentyn angen esgidiau addas.

Dydd Iau - Tu mewn, yn neuadd yr ysgol, bydd eich plentyn angen siort a chrys T.

Thema

Elen Benfelen a'r dair arth

Bydd holl weithgareddau y dosbarth yn deillio o'r thema yma.

Byddwn yn.....

- Gwrando ar stori Elen Benfelen, cofio ac adrodd y stori.
- Adnabod ac enwi eirth
- Dysgu gwybodaeth am eirth.
- Edrych yn fanwl ar bryfaid.
- Edrych ar lyfrau gwybodaeth a llyfrau stori am eirth.
- Gwneud a blasu uwd.

Tripiau/Gweithgareddau

Bydd gweithgareddau amrywiol yn yr ardaloedd o fewn y dosbarth i gyd fynd â'r thema, e.e. Yn yr ardal adeiladu bydd cyfle i'r plant adeiladu gwely mawr, canolig a bach.

Hefyd bydd y gweithgareddau tu allan yn deillio o'r thema'r dosbarth.